**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**181 - Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**
*Gosodwyd yn Senedd y DU: 8 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Y weithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh. |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh. |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh. |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 87 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Ddim yn ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh. |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | 21 Hydref 2020 |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Ddim yn hysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | 20 Hydref 2020 |

**Cefndir**
Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adrannau 8(1) ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac adran 41(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Cytundeb Ymadael) 2020.

**Crynodeb**
Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Meinweoedd Dynol (Ansawdd a Diogelwch at Ddefnydd mewn Bodau Dynol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") a wnaed y llynedd gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru fel rhan o'r ymarfer cywiriadau ar gyfer ymadael â'r UE heb gytundeb yn 2019 i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithredu'n gywir.

Mae’r Rheoliadau hyn yn gweithredu Protocol Gogledd Iwerddon, lle caiff Gogledd Iwerddon ei thrin fel pe bai'n Aelod-wladwriaeth (yn amodol ar yr addasiadau I gyfraith yr UE a wnaed gan Brotocol Gogledd Iwerddon), ac fel rhan gyfansoddol o'r DU. Mae'r darpariaethau'n cyfyngu ar y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan Reoliadau 2019 i Brydain Fawr, sy'n golygu bod y gyfraith bresennol yn parhau i fod ar waith ar gyfer Gogledd Iwerddon.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae’r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â’r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 15 Hydref, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae’r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i’r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Ym marn y Cynghorwyr Cyfreithiol, nid oes unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o’r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a sefydlu fframweithiau cyffredin mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn..